CYNGOR BRO TRAWSGOED COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn ar Nos Lun 2 Rhagfyr, 2019 am 7.00 y.h.
Minutes of Trawsgoed Community Council held at Llanfihangel-y-Creuddyn Primary School on Monday 2 December, 2019 at 7.00 p.m.

Presennol/Present:

Cyng./Cllr. L. Owen (Cadeirydd/Chairman)
Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. A. Evans, Cyng./Cllr. H.M. Evans, Cyng./Cllr. J. George, Cyng./Cllr. E. Lewis, Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan
Cynghorydd Sir/County Councillor M. Davies

Ymddiheuriadau/Apologies: Cyng./Cllr. P. Davies.

Croesawyd Cathryn Morgan, Cydlynydd Teuluoedd yn Gyntaf a Ffoaduriaid, Cyngor Sir Ceredigion i drafod anghenion a chyfleoedd chwarae i blant o fewn yr ardal.

Nid oes offer chwarae i blant o fewn ardal y Cyngor Bro. Cyfeiriwyd at set o offer chwarae oedd dan berchenogaeth Tai Ceredigion yn Llanafan sydd bellach wedi cael ei dynnu o'r lleoliad. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Thai Ceredigion i fynegi siom bod yr offer chwarae wedi mynd o Maes y Felin, Llanafan a hynny heb ymgynghoriad gyda'r Cyngor Bro Gofynnir hefyd i Dai Ceredigion am eu sylwadau o gyd-weithio gyda'r Cyngor Bro i geisio am grantiau i ail-leoli offer chwarae yn yr ardal.

Cathryn Morgan, Families First and Refugees Coordinator, Ceredigion County Council was welcomed to discuss children's play needs and opportunities within the area.

There are no children's play equipment within the Community Council area. Reference was made to some play equipment owned by Tai Ceredigion in Llanafan which has now been removed from the location. It was agreed for the Clerk to contact Tai Ceredigion to express disappointment that the play equipment had gone from Maes y Felin, Llanafan without consultation with the Community Council. Tai Ceredigion is also asked if they would be willing to co-operate with the Community Council to apply for grants to relocate play equipment in the area.

1. **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 14 Hydref, 2019. Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. A. Davies.

1. **Minutes of the Last Meeting**
The minutes of the last meeting, 14 October, 2019, were confirmed and accepted which was propsed by Cllr C. Lloyd Morgan and seconded by Cllr. A. Davies.

2. **Asesiad Risg ac Asedau** Nid oedd materion yn codi.

2. Risk and Asset Assessment
There were no matters arising.

3. Materion angen sylw'r Cyngor Sir
(i) Ffyrdd a draeniau angen sylw o fewn yr ardal.

3. Issues requiring attention of County Council
(i) Roads and drains requiring attention within the area.

(ii) Coeden mewn perygl o gwympo ym Mhentref Llanafan: Derbyniwyd ymateb wrth Gyngor Sir Ceredigion bod y sefyllfa mewn llaw.

(iii) Ffordd heibio Dolgwybedin: mae cyflwr y ffordd yn parhau i beri gofid ac angen sylw.

(iv) Materion Ffyrdd yn Cnwch Coch: y Clerc i gadw mewn cysylltiad gyda swyddogion y Cyngor Sir i sicrhau'r cyflawnir y gwaith.

(v) Dwr yn rhedeg o'r ffordd i dir preifat. Deallir fod y dwr dan sylw wedi achosi niwed i'r cae ac erydu pont fach yno, tynnir sylw'r Cyngor Sir unwaith yn rhagor ar y mater gan ofyn hefyd am esboniad pwy fyddai â chyfrifoldeb am adnewyddu'r niwed.

(vi) Y Cyngor Sir wedi trefnu i gwter gael ei gwaghau yng nghanol Cnwch Coch, deallir fod piben wedi torri o fewn y gwter, swyddogion yn ymwybodol.

(vii) Bont Siglen, Llanafan. Swyddogion Cyngor Sir wedi gweithredu ar dorri'r goeden oedd ar draws y llwybr.

(viii) Ar ben lon Cwmnewidion mae arwynebedd y ffordd wedi codi – sefyllfa'n parhau angen sylw.

(ix) Problemau parcio tu allan i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn gan gerbydau penodol. Cysylltiad wedi gwneud gyda'r Adran Drafnidiaeth Cyngor Ceredigion a'r Heddlu, angen cadw llygad ar y sefyllfa.

(x) Coed angen torri nol ger Cwmseiri sy'n amharu ar weledd wrth deithio.

4. Materion Cyllidol

(i) Derbyniwyd gydnabyddiaeth am y cyfraniad ariannol tuag at redeg toiledau Neuadd Llanafan.

Anfonebau

(ii) Cytunwyd i dalu anfoneb am y Torch Pabi o £17.00 gan ychwanegu rhodd o £8.00 i'r Lleng Brydeinig i wneud y swm i £25.00
Cynigiwyd y taliad gan y Cyng. Sh. Edwards ac eiliwyd gan y Cyng. A. Davies.

(ii) Tree at risk of falling in Llanafan Village: Ceredigion County Council responded noting that the matter is in hand.

(iii) Road near Dolgwybedin: the condition of the road continues to cause concern and require attention.

(iv) Road Issues in Cnwch Coch: the Clerk to liaise with County Council officers to ensure the works are carried out.

(v) Water running from the road onto private land. It is understood that the water in question caused damage to the field and eroded a small bridge, the matter is again brought to the attention of the County Council and an explanation sought as to who will be responsible for repairing the damage.

(vi) The County Council has arranged for a gutter to be emptied in the middle of Cnwch Coch, where is became apparent that a pipe has broken inside the gutter, officers are aware.

(vii) Small Bridge at Llanafan. County Council officers have removed the tree across the path.

(viii) Near to Cwmnewidion junction the road surface has risen, the matter still requiring attention.

(ix) Parking problems outside Llanfihangel-y-Creuddyn School with dedicated vehicles. Contact made with Ceredigion County Council Transport Department and Police. Need to monitor the situation.

(xi) Trees need to be felled near Cwmseiri which impair visibility when traveling.

4. Financial Matters

(i) Acknowledgment was received for the financial contribution towards the running of the Llanafan Hall toilets.

Invoices

(ii) It was agreed to pay an invoice for the Poppy Wreath of £17.00 as well as a donation of £8.00 to the British Legion to increase the sum to £25.00
Payment proposed by Cllr. Sh. Edwards and seconded by Cllr. A. Davies.

(iii) Cyngor Sir Ceredigion yn ymholi am faint o praesept byddid angen ar y Cyngor Bro am 2020/21. Trafodwyd cyllideb y Cyngor Bro a chyflwynodd y Clerc amcangyfrif o gostau rhedeg y Cyngor Bro am y flwyddyn.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gadw'r praesept ar £4,500. Cydnabyddir bod arian wrth gefn gyda'r Cyngor Bro ond clustnodir canran o'r cyllid hynny ar gyfer prosiectau o fewn yr ardal.
Cynigiwyd yr uchod gan Cyng. A. Davies ac eiliwyd gan Cyng. J. George.

(iii) Ceredigion County Council inquiring about the amount of precept the Community Council would require for 2020/21. The Community Council budget was discussed and the Clerk submitted an estimate of the running costs of the Community Council for the year.
Following discussion it was agreed to keep the precept at £4,500. It is acknowledged that the Community Council has reserves but a percentage of that funding is earmarked for projects within the area.
The above was proposed by Cllr. A. Davies and seconded by Cllr. J. George.

(iv) Talwyd anfoneb o £20 i Un Llais Cymru am gwrs Cyllid Cyngor Bro y mynychodd y Clerc. (Hanner yr anfoneb i'w dalu gan Gyngor Bro gyfagos ble mae cysylltiad gyda'r Clerc)

(iv) An invoice of £20 was paid to One Voice Wales for a Community Council Finance course attended by the Clerk. (Half the invoice to be paid by a neighboring Community Council which the Clerc has contact with).

(v) Cyflog a Chostau'r Clerc: Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc o 1af Ebrill 2019 – 31ain Rhagfyr 2019: £900.00 a £225.00 i HMRC ar gyfer PAYE y Clerc. (Cyfanswm o £1,125.00).
Cynigiwyd y taliadau gan Cyng. A. Davies ac eiliwyd gan Cyng. H. Evans.

(v) Clerk's Salary and Costs: It was agreed to pay the Clerk's salary from 1st April 2019 - 31st December 2019: £900.00 and £225.00 to HMRC for the Clerk's PAYE. (Total £1,125.00).
Payments proposed by Cllr. A. Davies and seconded by Cllr. H. Evans.

(vi) Darllenwyd lythyr wrth Bennaeth Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn yn gofyn i'r Cyngor Bro ystyried cyfrannu'n ariannol tuag at gostau cynnal Cyngerdd Nadolig yr Ysgol.

Cytunwyd i gyfrannu rhodd o £100.00 tuag at y costau. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. P. Bonner ac eiliwyd gan Cyng. A. Evans.

(vi) A letter was read from the Headteacher of Llanfihangel-y-Creuddyn Primary School asking the Community Council to considing making a financial contribution towards the costs of holding the School Christmas Concert.
It was agreed to donate a donation of £100.00 towards the costs. Payment proposed by Cllr. P. Bonner and seconded by Cllr. A. Evans.

(vii) Derbyniwyd y 3ydd taliad praesept 2019/20, swm o £1,500 ar y 29ain Hydref, 2019.

(viii) The 3rd precept payment 2019/20, amounting to £ 1,500 was received on the 29th October, 2019.

5. Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cynghorau Chymuned a Thref o dan Adran 6.
Trafodwyd yr uchod a chadarnhawyd yn cydymffurfio'r gyda'r Ddeddf. Manylion i'w dodi ar y safle we.
Cadarnhawyd bod y Cyngor Bro yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf gan gadw golwg ar lygredd afonydd, nentydd, yn yr awyr ayb gan weithredu'n amserol pan codir sefyllfa.

6. Environment Wales Act 2016 - Community & Town Councils Duty under Section 6
The above was discussed and confirmation of compliance with the above act with information to be placd on website.
It was confirmed that the Community Council complies with the Act by
• monitoring pollution of rivers, streams, air etc. taking timely action when a situation arises.

- Sicrhau y cedwir llwybrau troed, tir comin yn daclus.
- Ymateb i ymholiadau ceisiadau cynllunio drwy ystyried gofynion amgylcheddol.
- Ymateb i sefyllfaoedd o wastraff anghyfreithiol.
- Trefnu bin sbwriel i'r ardal er mwyn hyrwyddo ail-gylchu a lleihau gwastraff.

7. Gohebiaeth

(i) Trafodwyd gohebiaeth a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd yn pryderu am y goryrru ar y ffordd B4340. Cytunwyd i drosglwyddo'r pryderon at yr Adran berthnasol Cyngor Sir Ceredigion a'r Heddlu.

(ii) Gohebiaeth wrth Elliott Ryder Conservation yn cynnig gwasanaeth o adnewyddu'r Cof Golofnau o fewn yr Ardal. Cytunwyd I gydnabod yr ohebiaeth ar hyn o bryd.

(iii) Manylion wrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am ymgynghoriad am newid ffiniau Meddygfa Borth.

(iv) Ffordd U1153 Capel Seion mynd i fod ar gau ar y 9fed Rhagfyr ar gyfer gwaith ceblau.

(v) Ymgynghoriad Adolygu Dosbarthiadau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio 2019. Nid oedd yr awgrymiadau'n effeithio'r Cyngor Bro.

8. Ceisiadau Cais Cynllunio

A190791: Penpompren, Trawsgoed: Proposed demolition of the existing agricultural farm buildings and the erection of a new agricultural storage shed, complete with improvements to the existing site access.

A190792: Somerdale Cottage, Llanafan: Variation of condition 2 (change to holiday let) from planning permission 960920

A190752: Lisburn House, Llanfihangel-y-Creuddyn: Erection of glamping hut and small open barn.

Trafodwyd yr uchod a chytunwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau.

- Ensure that footpaths, common land are kept tidy.
- Respond to planning application inquiries by considering environmental requirements.
- Respond to situations of illegal waste.
- Arrange a litter bin for the area to promote recycling and reduce waste.

5. Correspondence

(i) Correspondence received from a member of the public concerned about speeding on the B4340 road. Following discussion it was agreed that the concerns be passed to the relevant Ceredigion County Council Department and the Police.

(ii) Correspondence from Elliott Ryder Conservation offering a service for the restoration work on the War Memorials. It was agreed to acknowledge the correspondence at this stage.

(iii) Details from Hywel Dda University Health Board for a consultation on changing the boundaries of Borth Surgery.

(iv) Capel Seion U1153 Road to be closed on 9th December for cable works.

(v) Review of Polling Districts, Polling Places and Polling Stations 2019. The consultation would not affect the Community Council.

6. Planning Applications

A190791: Penpompren, Trawsgoed: Proposed demolition of the existing agricultural farm buildings and the erection of a new agricultural storage shed, complete with improvements to the existing site access.

A190792: Somerdale Cottage, Llanafan: Variation of condition 2 (change to holiday let) from planning permission 960920

A190752: Lisburn House, Llanfihangel-y-Creuddyn: Erection of glamping hut and small open barn.

The above were discussion and resolved that there were no objections.

(ii) Cais Cynllun Rhydygarreg, Llanafan:
Cafwyd gwybodaeth ar waith ychwanegol i'r cais cynllunio a gyflwynwyd i'r Cyngor Bro a nodir nad yw'r Cyngor Bro yn cael cyfle i ymgynghori ar addasiadau a wneir i'r Cais Cynllunio gwreiddiol.

7. **Unrhyw Fater Arall**

(i) Adroddwyd bod cwrs Rali Ceir Bae Ceredigion ym mis Medi yn rhedeg drwy ardal Llanfihangel-y-Creuddyn a Chnwch Coch. Gan nad oedd y Cyngor Bro na'r trigolion lleol wedi derbyn ymgynghoriad na gwybodaeth swyddogol am y cynlluniau cytunwyd i ohebu gyda Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion yn datgan y dylid fod wedi ymgynghori gyda'r gymuned cyn gwneud penderfyniad terfynol am gwrs y Rali, o ystyried bod ffyrdd yn cael eu cau. Nodir hefyd cynhelir y Rali yn ystod Treialon Cwn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020.

(ii) Y broblem o lygredd carffosiaeth wedi ymddangos ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn yn ddiweddar. Danfonir nodyn i'r Cyngor Sir ynghyd â chadw llygad ar y mater.

(iii) Cais am lanhawr ffordd ar y ffordd heibio Ysgol Llanafan ac i gyfeiriad Glynbwch.

(iv) Y Polion du/gwyn heibio Brennan wedi cwympo ac angen ail-osod.

(v) Rheiliau Pren gyferbyn a mynedfa'r Hen Ficerdy yn Llanfihangel-y-Creuddyn angen sylw o ran iechyd a diogelwch gan fod afon yn rhedeg islaw.

(vi) Ar y B4340 ger Bont Fach I Trelonydd, Llanafan mae angen toccio'r gwrych yn ol.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Iau. Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Bro ar Nos Lun 6 Ionawr 2020 am **7.30 y.h**. yn Neuadd Lisburne, Llanafan.

(ii) Rhydygarreg Application, Llanafan:
Information was received on additional work to the planning application submitted to the Community Council and it is noted that the Community Council do not have the opportunity to consult on modifications made to original Planning Applications.

7. **Any Other Business**

(i) It was reported that the Cardigan Bay Rally course in September ran through the Llanfihangel-y-Creuddyn and Cnwch Coch area. As neither the Community Council nor the local residents had received any consultation or official information on the plans it was agreed to correspond with Ceredigion County Council Officers stating that the community should have been consulted before making a final decision on the Rally course, considering that the roads will be closed. It is also noted that the Rally will be held during the Ceredigion 2020 International Sheepdog Trials.

(ii) The problem of sewage pollution has recently emerged in Llanfihangel-y-Creuddyn Village. A note will be sent to the County Council as well as keeping an eye on the matter.

(iii) Request for a road cleaner on the road past Llanafan School and towards Glynbwch.

(iv) Black / white poles on the road near Brennan have collapsed and in need of replacement.

(v) Wooden Railings opposite the entrance to the Old Vicarage at Llanfihangel-y-Creuddyn require replacing as a river runs below.

(vi) On the B4340 near Pont Fach to Trelonydd, Llanafan the hedge needs to be trimmed back.

DATE OF NEXT MEETING

The next meeting to be held on Monday 6th January 2020 **7.30 p.m**. at Lisburne Hall, Llanafan.